

PWY SYDD DDIGONOL I FOD YN WEINIDOGION DUW?

Nodyn i'r siaradwr:

Cyferbyniwch esiampl Iesu a'i ddisgyblion gydag esiampl clerigwyr byd Cred, sy'n honni bod yn weinidogion Duw. Dangoswch beth yw'r cymwysterau Ysgrythurol ar gyfer gweinidogion Duw a sut hyfforddir gwir weinidogion Duw heddiw ar gyfer y weinidogaeth Gristnogol

'ROEDD IESU GRIST YN DDIGONOL I FOD YN BEN WEINIDOG DUW (6 mun.)

Wedi'i fedyddio yn yr Iorddonen yn 30 oed, cychwynnodd Iesu ar ei weinidogaeth (Lc 3:21-23)

Mewn synagog yn Nasareth, cyhoeddodd ei gomisiwn (Lc 4:17-21)

Aeth o amgylch holl drefi a phentrefi Israel, yn pregethu, yn iacháu, a gweithredu ei weinidogaeth aseiniedig (Mth 9:35, 36)

Daeth i'r ddaear nid 'i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu' a hynny fel gwas tŷ distadl, *diakonos* (Mth 20:28)

Sefydlodd batrwm ardderchog yn hyn i bawb fyddai'n ganlynwyr iddo

ESTYNWYD GWAHODDIAD I ERAILL I GAEL RHAN YN Y WEINIDOGAETH SYDD ODDI WRTH DDUW (10 mun.)

O gychwyn ei weinidogaeth gwahoddodd Iesu eraill i ymuno ag ef a dod yn "bysgotwyr dynion" (Mth 4:18, 19)

Anwybyddodd yr arweinwyr crefyddol Iddewig, er fod y rhain oll yn ddysgedig iawn yn y Gyfraith (Mth 23:2, 3, 6, 7)

Yn hytrach na chymeradwyo'r arweinwyr crefyddol hyn, fe gyhoeddodd wae arnynt (Mth 23:33)

Ni sefydlodd Iesu athrofeydd neu ysgolion diwinyddol ond mynd â'i ddisgyblion gydag ef i'w hyfforddi yn y 'maes' (Mth 9:35-38)

O fewn tair blynedd llwyr hyfforddwyd dynion megis Iago, Ioan, a Phedr a'u hanfon allan yn weinidogion cymwysiedig, 'cyhoeddwyd Teyrnas Dduw' (Mth 10:5-7)

'Roedd eu dysgu a'u llefaru yn debyg i'w Meistr (Act 4:13)

Mor wahanol yw arweinwyr crefyddol byd Cred heddiw!

Maen' nhw'n brolio'r hyfforddiant athrofaol a gawsant, yn ymhyfrydu yn eu teitlau rhwysgfawr, ac yn honni bod ganddynt ordinhad dwyfol

Mae eu beirniadaeth o Air Duw wedi arwain at anwybodaeth Feiblaidd ymhlith eu preiddiau, fel y dengys arolygon (*w91 1/15 7; w89 7/1 4-5*)

Mae llawer yn ymwneud â gwleidyddiaeth, yn camymddwyn yn rhywiol, ac wedi tramgwyddo'n ariannol

Ni fedrant hyd yn oed gytuno ar ystyr canlyn esiampl Iesu

CYMWYSTERAU YSGRYTHUROL AR GYFER GWEINIDOGION DUW (15 mun.)

Pwy sy'n wir ddigonol i wasanaethu'n weinidogion Duw? Mae Paul yn rhoi'r ateb uniongyrchol yn 2 Corinthiaid 2:16b, 17

Mae'r Ysgrythurau'n nodi'n eglur y camau angenrheidiol i fod yn ddigonol gymwys i fod yn weinidog Duw

Rhaid i berson yn gyntaf gymryd i mewn *wybodaeth drachywir* o Air Duw, fel y gwnaeth yr apostolion a Christnogion y ganrif gyntaf (In 17:3)

Gyda gwybodaeth o'r fath, mae angen *ffydd* (In 3:16; Heb 11:6)

Er mwyn i berson ddwyn tystiolaeth fod ganddo ffydd, rhaid wrth weithredoedd teilwng o *edifeirwch* am gwrs gwallus y gorffennol (Rhuf 2:4)

Yna rhaid troi at Dduw neu gymryd cam *troedigaeth*, er mwyn gwneud cynnydd yn y modd iawn i arwain at dderbyn ffafr Duw (Act 3:19)

Rhaid ymgynghraedd at *ymgysegru*, gan gynnig hunan i Dduw i wneud ei ewyllys yn ganlynwr camre Iesu Grist (Mth 16:24-26)

I arwyddo ymgysgriad y cam nesaf yw cael eich *bedyddio* â dŵr mewn ufudd-dod i orchymyn Iesu (Mth 28:19, 20)

Mae pawb sydd wedi cwblhau'r camau uchod yn ddigonol o safbwynt Duw i fod yn weinidogion y newydd da

Bedydd sy'n golygu cael ein hordeinio gan Dduw i fod yn un o'i weinidogion, nid diploma coleg neu lythyrau cymeradwyaeth gan ddynion

Y rhai sy'n ymateb i'w neges ac yn dod yn weinidogion eu hunain yw eu llythyr cymeradwyaeth (2Cor 3:1-3)

'Dyw gorfod gwneud gwaith seciwlar er mwyn eu cynnal eu hunain a'u teuluoedd ddim yn dirymu eu hawl i'w cyfrif eu hunain yn weinidogion Duw

'Roedd yr Apostol Paul yn gwneud pebyll; yn gweithio â'i ddwylo i sicrhau anghenion materol ond hefyd fe ddangosodd ei fod yn weinidog selog i Jehofah (Act 18:1-4; 20:34)

Mae Tystion Jehofah heddiw yn dilyn yr un cynsail Beiblaidd hwn, hyd yn oed y rhai sy'n gweinidogaethu'n llawn-amser

HYFFORDDIANT Y DYDD HWN I GYMHWYSO YN WEINIDOGION (9 mun.)

Mae pob gweinidog Jehofah yn derbyn hyfforddiant helaeth ar gyfer y weinidogaeth

Darperir pum cyfarfod cynulleidfaol yr wythnos i hyfforddi defnyddio Gair Duw yn hyddysg (Heb 10:23-25)

Mae Ysgol y Weinidogaeth Theocrataidd ym mhob cynulleidfa yn darparu cyfarwyddyd trwyadl mewn dulliau astudio effeithiol, darllen a siarad cyhoeddus, dysgu, a'r weinidogaeth maes. Ar gael i bawb (2Tim 3:14-16; gellir defnyddio *Theocratic Ministry School Guidebook* i ddangos ehangder maes y pynciau a ystyrir)

Mae Ysgol Gwasanaeth Arloeswyr wedi darparu hyfforddiant gwerthfawr i filoedd o weinidogion llawn-amser yn fyd-eang er mwyn iddynt ddisgleirio fel goleuadau (Phil 2:15)

Mae Ysgol Gweinidogaeth y Deyrnas yn darparu hyfforddiant pellach ar gyfer henuriaid iddynt fedru goruchwylio a bugeilio cynulleidfa Duw (Act 20:28)

Mae Ysgol Feiblaidd Gilead dros y 50 mlynedd diwethaf wedi hyfforddi miloedd o genhadon selog sy'n gwasanaethu'n fyd-eang (Mth 28:19, 20)

Mae Ysgol Hyfforddi Gweinidogaethol yn darparu cyfarwyddyd arbenigol i helpu brodyr cymwys i ehangu'u gwasanaeth

Mae'r holl ddarpariaethau hyn yn rhan o'r hyfforddiant Beiblaidd sy'n gwneud gweision Jehofah yn ddigonol i fod yn weinidogion effeithiol

Cydnabu Paul mai "o Dduw y daw ein digonolrwydd ni" (2Cor 3:1-5)

GWEINIDOGION DIGONOL YN AWR YN CAEL EU DEFNYDDIO GAN JEHOFAH DDUW (5 mun.)

Mae'r ffaith fod y newydd da yn cael ei bregethu yn yr holl genhedloedd yn dystiolaeth o gymeradwyaeth Duw ar eu hymdrechion (Mth 24:14)

Yn gyson ag esiampl Eseciel, a wasanaethodd yn "wylwr" i genedl wrthryfelgar drwy rybuddio am farnedigaethau Duw, mae gweinidogion Jehofah heddiw yn cyhoeddi rhybudd dwyfol (Esec 3:17-21; 33:2-7; w91 3/15 15)

Mae gweinidogion cymeradwy Jehofah yn gydweithwyr gostyngedig ac ufudd gyda Duw. Mae un yn plannu, un arall yn dyfrhau, ond Duw yw rhoddwr y tyfiant (1Cor 3:5-9)

Mae Gair Duw yn ein hannog oll i barhau i wella fel gweinidogion gweithgar (2Tim 2:15)

Yna, o wneud cynnydd cyson fel gweinidogion, gellir ein defnyddio i ogoneddu Duw, gallwn achub ein bywydau ein hunain a bywydau pawb sy'n gwrando ar Air y bywyd fel y'i cyhoeddir gan weinidogion gwir a chymeradwy Duw

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)